The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | **Prosiect Gwynt Alltraeth Mona** |
| **Cyfeirnod y ffeil** | **EN010137** |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio** |
| **Dyddiad** | **1 Chwefror 2024** |
| **Cyfarfod â** | **Mona Offshore Wind Limited** |
| **Lleoliad** | **Microsoft Teams** |
| **Amcanion y cyfarfod** | **Cyfarfod Diweddaru'r Prosiect** |
| **Dosbarthu** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei gymryd a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddir dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu bobl eraill) ddibynnu arno.

## Trosolwg o'r prosiect

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ymgysylltiad â Gweithgorau Arbenigol, rhanddeiliaid mordwyo a Thîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn mynd rhagddo ac y manylir arno yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd, mewn perthynas â'r Drwydded Forol Dybiedig yn y cais drafft ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a'r cais ar wahân ar gyfer Trwydded Forol ar gyfer yr asedau trawsyrru, y byddai dogfen Egwyddorion Trwydded Forol yn manylu ar sut y byddai'r Trwyddedau Morol yn cyd-fynd â'i gilydd. Byddai hyn yn cael ei drafod â CNC cyn cyflwyno'r cais am DCO. Dywedodd yr ymgeisydd pa byddai'r cais am DCO yn cael ei dderbyn i'w archwilio, yna byddai'r cais am Drwydded Forol mewn perthynas â'r asedau trawsyrru yn cael ei gyflwyno i CNC.

## Ymgynghoriad statudol

Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod am ymgynghoriad dilynol ar gyfer grwpiau nas clywir yn aml, gan gynnwys gohebiaeth e-bost, drwy'r post a dros y ffôn.

Ymgynghorwyd â Chyngor Tref Bodelwyddan fel ymgynghorai a47 yn hytrach nag ymgynghorai a42. Felly, ni roddwyd hysbysiad a48 iddo. Fodd bynnag, anfonwyd gohebiaeth ar y Clerc a defnyddiwyd ei ganolfan gymunedol ar gyfer dau ddigwyddiad ymgynghori. Felly, rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am y Datblygiad Arfaethedig. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod hyn wedi'i esbonio'n glir yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Esboniodd yr Ymgeisydd fod naw buddiant a44 newydd wedi'u nodi ac y darparwyd yr holl ddeunyddiau ymgynghori â 28 diwrnod i ymateb.

## Rhaglen ac amserlen y DCO

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y cais ar gyfer DCO i fod i gael ei gyflwyno ddiwedd mis Chwefror 2024.

Trafododd yr Ymgeisydd y llythyr cyn-cyflwyno i gadarnhau dealltwriaeth o'r gofynion y manylir arnynt a chadarnhaodd, pe byddai'r cais am DCO yn cael ei dderbyn, y byddai'n well cyhoeddi dogfennau ar ôl iddo gael ei dderbyn.

## Unrhyw fater arall

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd cais am estyniad i isbwerdy'r Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan (dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol hyd yn hyn; fodd bynnag, roedd yr Ymgeisydd wedi cynnwys cymaint â phosibl o fanylion yn yr Asesiad o'r Effeithiau Cronnus (CEA). Roedd y CEA yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd trwy broses gwmpasu'r Grid Cenedlaethol. Gan fod nifer o brosiectau ym Môr Iwerddon yn y broses o wneud cais am DCO ar yr un pryd, rhoddodd yr Ymgeisydd wybod y gallai fod angen diweddaru'r CEA pan fydd ar gael. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'n diweddaru'r CEA pe byddai'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn gofyn iddo wneud hynny yn ystod yr archwiliad.

Holodd yr Ymgeisydd ynghylch yr angen am ddiweddariadau i'r Datganiad Amgylcheddol yn ystod yr archwiliad. Cynghorodd yr Arolygiaeth y gellir diweddaru penodau unigol drwy gydol y broses, yn amodol ar natur y newidiadau a dewis yr ExA.

## Penderfyniadau penodol/a oes angen camau dilynol?

Cytunwyd ar y camau canlynol:

- Bydd yr Ymgeisydd yn treialu'r cyflwyniad cyn cyflwyno'r cais ffurfiol am DCO.